

## ELFODD, esgob (bu farw 809);

Enw: Elfodd

Dyddiad marw: 809

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: esgob

Maes gweithgaredd: Crefydd

Awdur: Robert Thomas Jenkins

ymddengys yr enw yn y ffurfiau 'Elbodugus' ac 'Elbodg' (Harleian MS. 3859), ac 'Elvodugus' (**Nennius**), sef 'Elbodu(g)' mewn hen Gymraeg. Y mae'n enwog am iddo fabwysiadu, yn y flwyddyn 768 (Harleian MS. 3859), y dull Rhufeinig o bennu Sul y Pasg, dull yr oedd yr Eglwys Gymreig wedi ymrwthod ag ef yn 602-3. Amrywia'r traddodiadau ynghylch tras a hanes Elfodd (gweler *The Lives of the British Saints*, iii, 431), ond cysyllta'r mwyafrif ef â chlas Caer Gybi. Dywedir (*The Lives of the British Saints*) iddo gael ei ethol yn 'esgob Bangor' yn 755, ond gorffwys hyn ar dystiolaeth ddiweddar, ac annio gel iawn, sef llawysgrifau '**Iolo Morganwg**' Gan y croniclydd **Nennius**, disgylb, meddai ef ei hunan, i Elfodd ('Elvodugi discipulus'), fe'i gelwir yn 'esgob o'r sancteiddiaf' ('episcoporum sanctissimus'), heb ei gysylltu ag unrhyw fan neilltuol; ac yn y cofnod o'i farwolaeth yn 809 (Harleian MS. 3859), gelwir ef yn 'brif esgob yng ngwlad Gwynedd' ('archiepiscopus Guenedote regione' [ sic ]), ymadrodd nad oedd, yn y cyfnod hwnnw yng Nghymru, yn cyfleo unrhyw syniad o awdurdod 'archesgobol' yn ein hystyr ni'r gair.

### Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), 203-4

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Elfodd](#)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q377801](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.



Jenkins, R. T., (1953). ELFODD, esgob (bu farw 809);. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ELFO-DDW-0809>

LLGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Nosbarwr  
Llyfrgell Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government